Archwilio Cymru
Audit Wales

# Heriau i’r sector diwylliant – Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4814A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn a beth mae'n ei wneud ....4

Casgliad cyffredinol ....5

Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol....5

Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol ....9

Argymhellion ....14

Ynglŷn â'n gwaith....15

Y sefyllfa ariannol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ....21

# Adroddiad cryno

## Pam y gwnaethom yr archwiliad a beth mae'n ei wneud

1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Lyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) osod amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i gyfrannu at lesiant Cymru, nawr a thros y tymor hwy. Rhaid iddi hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio a yw'r Llyfrgell wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy[1] wrth osod ei hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o'n harchwiliad o'r camau y mae'r Llyfrgell yn eu cymryd i gyflawni ei hamcanion llesiant[2]. Mae wedi canolbwyntio ar y pwysau ariannol sylweddol y mae'r Llyfrgell yn eu profi. Mae'r pwysau hynny'n cynnwys costau cynyddol a gostyngiad yn ei chymorth grant (GiA) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae ganddynt oblygiadau i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad a'i allu i gyflawni ei amcanion llesiant. Gall cynllunio ariannol effeithiol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy helpu i reoli'r materion hyn.

3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a oes gan y Llyfrgell drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, i gefnogi ei hamcanion llesiant. Mae'n rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu cyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru yn y sector diwylliant. Fe wnaethom gymhwyso'r un cwestiynau a meini prawf archwilio cyffredinol ym mhob corff. Fodd bynnag, roedd ein gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth yn ystyried ffactorau cyd-destunol ar gyfer pob corff, gan gynnwys gwahaniaethau mewn swyddogaethau ac yn eu hamgylchedd ariannol. Mae **Atodiad 1** yn darparu mwy o wybodaeth am ein gwaith a'n sylfaen dystiolaeth.

4 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Llyfrgell wedi derbyn adroddiadau allanol gydag argymhellion ar gyfer gwella cynllunio a rheoli ariannol. Ym mis Mawrth 2020 derbyniodd adroddiad 'Adolygiad Teilwredig' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[3]. Rhwng 2022 a 2023, comisiynodd y Llyfrgell y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i asesu ei sefyllfa ariannol, cynaliadwyedd ariannol tymor hwy, a chydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

[1] Mae'r Ddeddf yn nodi bod gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. I wneud hynny, rhaid i gorff ystyried pum ffordd o weithio, wedi'u crynhoi fel hirdymor, integreiddio, cyfranogiad, cydweithredu ac atal.

[2] Mae'r Llyfrgell wedi nodi ei hamcanion llesiant yn ei chynllun strategaeth, Llyfrgell i Gymru a'r Byd - Cynllun Strategol 2021-26

[3] Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru', Mawrth 2020

5 Roedd yr adroddiadau hyn yn nodi meysydd sylweddol i'w gwella ar draws cynllunio a rheoli ariannol. Rydym yn nodi eu canfyddiadau a'u hargymhellion ond, wrth gyflwyno'r archwiliad hwn, nid ydym wedi asesu cynnydd y Llyfrgell yn ffurfiol wrth ymateb iddynt. Mae ein hadolygiad yn gulach o ran cwmpas a dyfnder. Mae rheolaeth ariannol o ddydd i ddydd ac effeithiolrwydd y swyddogaeth gyllid y tu allan i'r cwmpas.

6 Fe wnaethom baratoi'r adroddiad hwn cyn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Rydym yn gobeithio y bydd ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn ddefnyddiol i'r Llyfrgell wrth iddi gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

# Casgliad cyffredinol

7 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad canlynol:

- cynyddodd incwm cyffredinol y Llyfrgell rhwng 2019-20 a 2023-24, er bod ei hincwm GiA yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod mewn termau real. Yn y cyfamser, cododd costau staff a chostau uniongyrchol eraill yn gyflym. Arweiniodd y toriad i'r GiA dangosol ar gyfer 2024-25 at bwysau pellach ar sefyllfa ariannol y Llyfrgell.
- mae gan y Llyfrgell ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol ac wedi nodi camau allweddol i wella cynaliadwyedd ariannol ond bydd angen iddi symud ar gyflymder i fynd i'r afael â'i heriau brys a gwella ei chydnerthedd am y tymor hwy.

8 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

# Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol

## Cynyddodd incwm cyffredinol y Llyfrgell rhwng 2019-20 a 2023-24, er bod ei incwm GiA yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod mewn termau real. Yn y cyfamser, cododd costau staff a chostau uniongyrchol eraill yn gyflym. Mae'r toriad i'r GiA dangosol ar gyfer 2024-25 yn rhoi pwysau pellach ar sefyllfa ariannol y Llyfrgell.

9 Mae **paragraffau 10 i 24** yn rhoi trosolwg cyffredinol o nodweddion allweddol sefyllfa ariannol y Llyfrgell. Mae'r data a adroddwyd yn dod yn bennaf o ddatganiadau ariannol blynyddol ar gyfer 2019-20 i 2023-24. Mae cyfres o arddangosion yn **Atodiad 2** yn darparu manylion ychwanegol.

## Incwm

10 Yn 2023-24, incwm cyffredinol y Llyfrgell oedd £21.0 miliwn. Mae'n derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf ar ffurf GiA. O'r £21.0 miliwn, roedd GiA yn cyfrif am £11.9 miliwn (56%).

11 Cododd GiA o £10.0 miliwn yn 2019-20 i £12.2 miliwn yn 2022-23. Yna gostyngodd ychydig i £11.9 miliwn yn 2023-24. Pan addaswyd ar gyfer chwyddiant[4], roedd swm GiA yn 2023-24 yn debyg i 2019-20. Yn flaenorol, dadansoddodd CIPFA incwm y Llyfrgell dros gyfnod hirach, rhwng 2007-08 a 2019-20. Dangosodd ostyngiad o draean mewn termau real yn y GiA.

12 Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yng nghyfansoddiad y GiA yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o un flwyddyn i'r llall. Yn benodol, mae GiA y Llyfrgell yn aml yn cynnwys rhai elfennau amser cyfyngedig a hefyd cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn, y mae'n rhaid defnyddio'r ddau ohonynt at ddibenion penodol. Er enghraifft:

- Yn 2021-22, roedd y GiA yn cynnwys £0.8 miliwn i weithredu argymhellion yr Adolygiad Teilwredig.
- Yn 2022-23, derbyniodd y Llyfrgell gyllid GiA ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £1 miliwn i gefnogi pwysau cyflogau a chostau byw, a £0.6 miliwn arall yn 2023-24.
- Yn 2023-24, roedd y GiA yn cynnwys £0.4 miliwn i ariannu gwaith ar y Strategaeth Ddiwylliant genedlaethol.

13 Mae'r Llyfrgell yn derbyn cyllid refeniw a grant cyfalaf cyfyngedig arall gan Lywodraeth Cymru. Cynyddodd hyn o £1.8 miliwn yn 2019-20 i £6.0 miliwn yn 2023-24, gan godi bob blwyddyn ac eithrio 2022-23. Cafwyd cynnydd sylweddol mewn cyllid grant cyfalaf ar ôl 2019-20 a £1.1 miliwn yn 2023-24 ar gyfer cynllun diswyddo gwirfoddol.

14 Daw gweddill incwm y Llyfrgell o grantiau nad ydynt yn rhai Llywodraeth Cymru, gweithgareddau masnachol, a rhoddion a buddsoddiadau preifat. Mae'r incwm arall hwn wedi amrywio ond roedd yn uwch yn 2023-24 (£3.2 miliwn) nag yn 2019-20 (£2.7 miliwn). Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r cyfanswm incwm yn ôl ffynhonnell rhwng 2019-20 a 2023-24.

## Gwariant

15 Costau staff yw maes gwariant mwyaf y Llyfrgell. Fe wnaethant godi o £9.6 miliwn yn 2019-20 i £12.3 miliwn yn 2023-24, yn bennaf oherwydd pwysau chwyddiant. Defnyddir GiA y Llyfrgell yn bennaf i dalu costau staff. Fodd bynnag, yn 2020-21 a

[4] Ar gyfer ein dadansoddiad termau real, fe wnaethom ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros Trysorlys EF ar brisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Fe wnaethom seilio ein cyfrifiad ar gyfanswm y GiA a dderbyniodd y Llyfrgell bob blwyddyn.

2022-23 roedd costau staff yn fwy na'r GiA. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos costau staff fel cyfran o'r GiA.

16 Mae'r Llyfrgell hefyd yn ysgwyddo costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'i gweithgareddau a'i chostau rhedeg, fel ynni. Mae ffactorau economaidd ehangach wedi gyrru'r costau hyn i fyny. Ar ôl cwymp bach rhwng 2019-20 a 2020-21, fe wnaethant gynyddu o £2.6 miliwn yn 2020-21 i £3.3 miliwn yn 2021-22. Yna aethant i fyny eto i £4.7 miliwn yn 2022-23 ac arhosodd ar y lefel hon yn 2023-24.

17 Costau eraill yw costau cyllid pensiwn, newidiadau yng ngwerth asedau'r Llyfrgell, ac enillion a/neu golledion o waredu buddsoddiadau. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos gwariant yn ôl math rhwng 2019-20 a 2023-24.

## Cronfeydd wrth gefn

18 Mae gan y Llyfrgell gronfeydd wrth gefn cyhoeddus a phreifat anghyfyngedig a chyfyngedig. Gall wario arian anghyfyngedig ar weithgareddau sy'n cefnogi ei amcanion. Dim ond at ddibenion penodol y gall y Llyfrgell ddefnyddio ei chronfeydd wrth gefn cyfyngedig[5].

19 Mae cronfa gyhoeddus anghyfyngedig y Llyfrgell yn dal cyllid Llywodraeth Cymru sydd wedi cael ei gario ymlaen o un flwyddyn i'r llall. Dim ond dros 2% o'i GiA gros y gall y Llyfrgell gario fel cronfeydd wrth gefn cyhoeddus anghyfyngedig o un flwyddyn i'r llall.

20 Mae cronfeydd wrth gefn preifat anghyfyngedig y Llyfrgell yn cael eu cadw yn bennaf mewn portffolio o fuddsoddiadau[6]. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi'u creu o roddion, cymynroddion, incwm rheoli cronfeydd, a thwf cyfalaf. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Llyfrgell gronfeydd wrth gefn preifat anghyfyngedig o £16.0 miliwn (2023: £15.2 miliwn). Mae'r Llyfrgell wedi nodi, heb benderfyniadau hanesyddol i fuddsoddi cymynroddion, na fyddai wedi bod mewn sefyllfa i dynnu ar yr arian hwn i ategu'r GiA yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Gostyngiadau mewn GiA ar gyfer 2024-25 a 2025-26

21 Derbyniodd y Llyfrgell doriad sylweddol i'w refeniw GiA ar gyfer 2024-25. Rhoddwyd tua £1.2 miliwn yn llai na'r swm a nodir yn y gyllideb dair blynedd ddangosol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi iddi ar gyfer 2022-23 i 2024-25.

[5] Mae cronfeydd wrth gefn cyhoeddus cyfyngedig, o £96 miliwn ar ddiwedd 2023-24, yn ymwneud ag asedau sefydlog y Llyfrgell (ei thir a'i hadeiladau rhydd-ddaliad, ac asedau treftadaeth). Mae cronfeydd wrth gefn preifat cyfyngedig yn bennaf yn rhoddion asedau treftadaeth o £9 miliwn ac ni ellir eu gwerthu.

[6] Mae rhai cronfeydd wrth gefn preifat anghyfyngedig yn cael eu cadw yng nghyfrif banc cronfeydd preifat ac mewn dyledwyr a gydnabyddir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 10.6% i'r gyllideb ddangosol[7], mewn termau arian parod.

22 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y GiA ar gyfer 2024-25 yn cynnwys rhai elfennau wedi'u neilltuo. Roedd y GiA yn cynnwys:

- £0.7 miliwn i gefnogi'r Strategaeth Ddiwylliant.
- Dyfarnwyd £1.4 miliwn yn ystod y flwyddyn i gefnogi costau pensiwn a phrosiectau digideiddio.
- Darparwyd £0.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i ariannu'r gwahaniaeth rhwng y dyfarniad cyflog a gyllidebwyd gan y Llyfrgell a'r dyfarniad cyflog o 5% yn y sector cyhoeddus.

23 Yn ddiweddar, cwblhaodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ymchwiliad ar effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru[8]. Nid yw ein harchwiliad yn dod i gasgliadau ar lefelau cyllid ond yn hytrach yn canolbwyntio ar sut mae'r Llyfrgell yn ymateb i heriau ariannol.

24 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26. Darparodd ddyraniad GiA dros dro o £11.6 miliwn i'r Llyfrgell. Mae hyn yn cydgrynhoi'r cyllid o £0.1 miliwn a ddyfarnwyd ar gyfer cyflogau ym mis Hydref 2024. Fodd bynnag, mae cyfanswm y dyraniad GiA drafft yn llai na'r GiA a dderbyniwyd ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, £0.2 miliwn (2023-24) a £1.1 miliwn (2024-25).

[7] Fe wnaethom seilio'r cyfrifiad hwn ar symiau GiA a nodir mewn llythyrau cyllido Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar ddechrau 2022-23 a 2024-25.

[8] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025

# Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol

## Mae gan y Llyfrgell ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol ac wedi nodi camau allweddol i wella cynaliadwyedd ariannol, ond bydd angen iddi symud ar gyflymder i fynd i'r afael â'i heriau brys a gwella ei chydnerthedd am y tymor hwy

### Mae gan y Llyfrgell ddealltwriaeth glir o raddfa ei heriau ariannol a'r risgiau allweddol i'w chynaliadwyedd ariannol

25 Gall asesiad cadarn o'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon helpu i sicrhau dull strategol gwybodus o gynllunio ariannol. Gall dealltwriaeth gyson o'r sefyllfa honno ar draws uwch arweinyddiaeth helpu i sicrhau perchnogaeth a rennir ar y dull gweithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd pwysau sylweddol ar gyllid ac efallai y bydd angen penderfyniadau anodd.

26 Mae'r Llyfrgell wedi cael mewnwelediad i faint ei heriau ariannol a'r rhesymau sylfaenol trwy adroddiadau allanol amrywiol. Asesodd CIPFA raddfa'r diffyg yn 2022 a modelu effaith gostyngiadau pellach yn y GiA. Nododd CIPFA hefyd wendidau mewn cynllunio ariannol a'r angen i wella'r swyddogaeth gyllid.

27 Bu newidiadau mewn uwch bersonél ers gwaith CIPFA. Mae'r arweinyddiaeth bresennol yn dangos dealltwriaeth dda o'r heriau ariannol cyfredol, a'r hyn y maent yn ei olygu ar gyfer 2024-25 a thu hwnt. Roedd gan uwch staff y gwnaethom eu cyfweld ddealltwriaeth gyson o'r heriau ac maent wedi mynegi ymrwymiad brwd i fynd i'r afael â nhw.

28 Mae'r Llyfrgell wedi nodi costau staff fel ei phrif risg gyllideb. Fel y disgrifir ym **mharagraff 15**, dyma'r maes gwariant mwyaf ac mae wedi bod yn uwch na'r GiA mewn rhai blynyddoedd. Felly, mae pwysau ychwanegol fel dyfarniad cyflog 2024-25 a newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr yn cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Llyfrgell.

29 Dywedodd y Llyfrgell wrthym ei bod yn gwneud dyfarniadau cyflog yn unol â disgwyliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Er bod y Llyfrgell wedi derbyn taliadau untro o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru i dalu dyfarniadau cyflog, nid oes ganddi warant o gyllid ychwanegol ar eu cyfer nac y byddant yn cael eu rhoi i mewn yn y GiA sylfaenol ar gyfer blynyddoedd i ddod.

30 Mae fforddiadwyedd y strwythur pensiwn hefyd yn risg fawr i gynaliadwyedd ariannol. Mae'r Llyfrgell yn gweithredu ei chynllun pensiwn staff ei hun sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Mae gan y cynllun ddiffyg o £6.6 miliwn. Mae'r Llyfrgell yn talu cyfraniad cyflogwr o 22.8% yn ogystal â chyfraniad diffyg hanesyddol blynyddol o £582,000 i leihau'r diffyg cyllid. Mae'r Llyfrgell o'r farn bod

tebygolrwydd uchel y bydd ei chyfraniad cyflogwr yn codi'n sydyn yn yr adolygiad actiwaraidd nesaf. Mae **paragraff 48** yn ymwneud â newidiadau pensiwn arfaethedig.

31 Mae'r Llyfrgell hefyd yn pryderu am effaith pwysau chwyddiant parhaus sy'n gysylltiedig â chostau uniongyrchol nad ydynt yn rhai staff, fel costau ynni. Dros y tymor hwy, mae wedi nodi'r angen i wneud adeilad y Llyfrgell yn fwy amgylcheddol gynaliadwy.

32 Mae'r Llyfrgell yn cofnodi ac yn monitro risgiau ariannol allweddol yn ei chofrestr risgiau gorfforaethol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn monitro'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae'n cynnwys 'risg fawr' ynghylch a fydd y Llyfrgell yn gallu cydbwyso ei chyllideb a chyflawni cynaliadwyedd ariannol wrth fynd ar drywydd cyflawni ei blaenoriaethau strategol. Mae'n nodi fforddiadwyedd cyfraniadau pensiwn fel 'risg eithafol'.

33 Mae uwch arweinwyr yn ymwybodol bod ganddynt set gyfyngedig o opsiynau ar gyfer lleihau costau, ond maent hefyd yn ymwybodol o'r angen i fuddsoddi ar gyfer y tymor hwy. Er enghraifft, er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol am ddeunyddiau'r Llyfrgell sy'n cael eu cyrchu'n ddigidol. Maent yn deall yr angen i fynd i'r afael â'r heriau ariannol i sicrhau eu bod yn gallu gwneud hyn.

## Mae'r Llyfrgell wedi dechrau gosod y sylfeini ar gyfer cynllunio ariannol mwy cynaliadwy, ac mae'n bwriadu ailedrych ar ei hamcanion llesiant i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r realiti ariannol

34 Mae dull strategol o gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn bwysig. Mae'n darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn helpu cyrff i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gydbwyso ysgogiadau polisi ac adnoddau, yn enwedig wrth i heriau newydd ddod i'r amlwg.

35 Dywedodd y Llyfrgell wrthym fod ansicrwydd blynyddol ynghylch lefelau cyllid a dyraniadau yn ystod y flwyddyn yn parhau i wneud cynllunio ariannol yn anodd. Pan wnaethom ymgymryd â'n gwaith maes, roedd gan y Llyfrgell 'gynllun ariannol canol tymor' treigl sy'n cwmpasu 2023-24 i 2025-26. Roedd yn cynnwys modelu cyllid refeniw a chyfalaf a phwysau costau. Roedd yn rhagweld diffyg gweithredol o £3.9 miliwn dros y cyfnod[9].

36 Roedd y cynllun yn nodi'r angen i dynnu ar gronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r diffyg. Nododd hefyd gamau allweddol i gyflawni arbedion ac o bosibl lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, er eu bod yn rhai lefel uchel. Nid oedd y cynllun yn nodi'n glir lefel yr arbedion y gellid eu cyflawni nac erbyn pryd.

37 Roedd uwch arweinwyr yn cydnabod yr angen i ddatblygu cynllun ariannol newydd, sy'n canolbwyntio ar y tymor canolig i'r tymor hwy. Ym mis Rhagfyr 2024, ar ôl

[9] Cyfrifwyd y diffyg gweithredol hwn ar sail cyllid a ragwelir gan Lywodraeth Cymru, incwm a chostau prosiectau a masnachol. Nid oedd yn ystyried unrhyw gyfraniadau o gronfeydd preifat anghyfyngedig.

derbyn arwydd o setliad cyllid 2025-26, paratôdd y Llyfrgell gynllun ariannol tair blynedd drafft.

38 Mae'r ddogfen yn cynnwys crynodeb o'r rhagolygon ariannol craidd ar gyfer y tair blynedd 2025-26 i 2027-28. Mae'n nodi ei bod wedi'i pharatoi ar ôl trafodaethau dadansoddiad cyllideb ar sail sero gyda Phenaethiaid Adrannau a Chyfarwyddwyr (gweler **paragraff 47**). Mae'n nodi'r rhagdybiaethau allweddol sy'n ymwneud â GiA, incwm masnachol, incwm rheoli prosiectau, costau staff, costau nad ydynt yn rhai staff, prosiectau cyfalaf, a chronfeydd preifat.

39 Wrth i'r Llyfrgell fwrw ymlaen â'i chynllun ariannol, gallai gynnwys modelu i gwmpasu gwahanol senarios a meincnodi rhagdybiaethau gyda chyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru. Gallai'r Llyfrgell hefyd ystyried ffactorau ehangach sy'n debygol o lunio ei chynaliadwyedd ariannol. Gallai hyn gynnwys gofynion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, risgiau perthnasol, a goblygiadau ar gyfer cyflawni ei hamcanion llesiant. Yn hanfodol, bydd angen i'r cynllun ariannol newydd alinio â chynlluniau arbedion i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg a ragwelir.

40 Mae'r Llyfrgell yn cymryd agwedd bragmataidd o ran efallai na fydd ei chynllun strategol presennol a'i hamcanion llesiant, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2021-2026, yn cael eu cyflawni o fewn cyfyngiadau ei chyllideb. Arweiniodd hyn at benderfynu adolygu ei chynllun strategol a'i hamcanion llesiant yn gynnar. Nod y Llyfrgell yw lansio cynllun newydd yng ngwanwyn 2025.

41 Mae'r Llyfrgell yn bwriadu integreiddio ei chynllun strategol newydd gyda'i chynllun ariannol a'i chyllideb flynyddol. Mae hefyd yn bwriadu alinio'r strategaeth gweithlu a'r strategaeth buddsoddi cyfalaf. Dylai dod â'r trefniadau cynllunio hyn at ei gilydd, a'u halinio â chynlluniau adran, helpu'r Llyfrgell i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni ei chynllun strategol a'i ddefnyddio i ysgogi penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau. Dylai hefyd ddarparu sail ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar lefelau cyllid yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan fod y gwaith hwn yn dal i gael ei ddatblygu ar adeg ein gwaith maes, nid ydym wedi gweld sut y bydd yn gweithio yn ymarferol.

## Mae'r Llyfrgell wedi nodi camau allweddol a fydd yn ei helpu i symud tuag at fwy o gynaliadwyedd ariannol ond bydd angen iddi symud ar gyflymder i fynd i'r afael â heriau ariannol parhaus

42 Mae'n bwysig bod gan gyrff gynlluniau clir, cyflawnadwy i helpu i gyflawni cyllideb gytbwys. Gall cynllunio camau gweithredu, boed yn cynhyrchu incwm neu arbedion, dros sawl blwyddyn helpu i sicrhau bod cyrff mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Gall helpu i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gynllunio a gweithredu cynigion yn effeithiol, gan gynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys ymgymryd â chyfranogiad effeithiol ac archwilio cyfleoedd i gydweithio.

43 Yn hanesyddol, mae'r Llyfrgell wedi dibynnu ar ddiswyddo gwirfoddol fel y ffordd allweddol o gyflawni arbedion. Rhwng 2019-20 a 2023-24, arhosodd nifer y staff yn

gymharol sefydlog. Mae’r Llyfrgell yn cyflogi cyfuniad o staff parhaol, staff ar gyfer prosiectau a staff achlysurol. Yn 2023-24, nifer y staff oedd 252[10], a oedd yn cynnwys 210 o staff parhaol, 32 o staff ar gyfer prosiectau a naw aelod o staff achlysurol.

44 Ymgymerodd y Llyfrgell ag ymarfer diswyddo gwirfoddol mewn ymateb i’r gostyngiad i’r GiA ar gyfer 2024-25. Arweiniodd hyn at 24 o staff parhaol (11% o staff parhaol 2023-24) yn gadael y Llyfrgell erbyn Rhagfyr 2024. Mae’r Llyfrgell yn amcangyfrif y bydd budd arbedion o £1 miliwn yng nghyllideb 2025-26. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i helpu i dalu’r costau diswyddo ymlaen llaw.

45 Ym mis Mai 2024, derbyniodd Bwrdd y Llyfrgell bapur yn dangos effaith debygol y cynllun diswyddo gwirfoddol ar wahanol feysydd gwaith. Gwnaeth y Llyfrgell addasiadau tymor byr i gefnogi lles y gweithlu a sicrhau parhad busnes. Roedd hefyd yn cydnabod na fyddai’n bosibl parhau i gyflawni i’r un lefel a wnaeth o’r blaen a dechreuodd edrych ar sut y gallai wneud pethau’n wahanol.

46 Mae’r Llyfrgell yn cydnabod na all barhau i ddibynnu ar ddiswyddo gwirfoddol i gwrdd â phwysau ariannol. Mae’r arweinyddiaeth wedi nodi camau amgen i leihau, neu reoli gwariant, ac i gynhyrchu incwm.

47 Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Llyfrgell wedi dechrau gweithio gydag adrannau i ddatblygu dealltwriaeth lawnach o gostau. Argymhellodd CIPFA yn flaenorol y dylai’r Llyfrgell gynnal ymarfer ‘cyllideb sero’. Mae’n bwriadu adeiladu ei chyllidebau gan ddefnyddio dull o’r gwaelod i fyny, yn hytrach na chymhwyso cynnydd canrannol i gyllideb neu wariant y flwyddyn flaenorol. Bydd cael gwell dealltwriaeth o gostau yn gwella ansawdd rhagdybiaethau yn ei chynllun ariannol tymor canolig.

48 Dechreuodd y Llyfrgell ymgynghori ar newidiadau i’w strwythur pensiwn ym mis Hydref 2024. Mae’n bwriadu diwygio’r cynllun buddion diffiniedig presennol, gyda’r nod o sefydlu cynllun mwy cynaliadwy yn ariannol sy’n lleihau ei chyfraniad cyflogwr.

49 Mae’r Llyfrgell hefyd wedi nodi cyfleoedd i gynhyrchu mwy o incwm. Mae’r rhain yn cynnwys cyfleoedd masnachol posibl yn seiliedig ar boblogrwydd hanes teuluol, arddangosfeydd proffil uchel, a datblygu’r siop ar y safle.

50 Mae uwch arweinwyr hefyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull mwy strategol a chynaliadwy o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae’r Llyfrgell, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi defnyddio ei chronfeydd wrth gefn mewn ffordd ad hoc, anghynaliadwy i ddarparu cymorth ariannol tymor byr.

51 Yn 2022, cynghorodd CIPFA y dylai’r Llyfrgell ddefnyddio ei chronfeydd wrth gefn preifat i ariannu’r diffyg yn y tymor byr yn unig. Tynnodd modelu CIPFA sylw at y risgiau o ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn i fynd i’r afael â bylchau cyllido, yng

[10] Dyma nifer y staff yn fisol ar gyfartaledd, a gymerwyd o'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2023-24.

nghyd-destun gostyngiadau i'r GiA. Dangosodd y risg bosibl o wagio cronfeydd wrth gefn yn llwyr yn y tymor canolig.

52 Mae'r Llyfrgell wedi tynhau rheolau ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn. Yn ddiweddar, diwygiodd eiriad ei pholisi wrth gefn i ddarparu eglurder ar y defnydd o gronfeydd preifat. Bwriad yr arweinyddiaeth yw na ddylid defnyddio mwy na'r cronfeydd preifat sydd eisoes wedi'u cymeradwyo i fantoli'r cyfrifon hyd yn oed ar ôl 2025-26.

53 Mae'r Llyfrgell hefyd wedi adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn preifat. Mae wedi creu portffolio buddsoddi ar wahân o £5.5 miliwn o fewn y gronfa breifat anghyfyngedig ar gyfer yr Archif Ddarlledu Genedlaethol. Mae hyn yn neilltuo cyllid i gefnogi blaenoriaeth a fydd yn gofyn am fuddsoddiad yn y dyfodol, sy'n golygu nad yw ar gael i ategu unrhyw ddiffygion yng nghyllid Llywodraeth Cymru. Mae hon yn enghraifft gadarnhaol o'r Llyfrgell yn cymryd dull tymor hwy o ran darparu adnoddau ar gyfer blaenoriaeth.

## Mae'r Llyfrgell wedi gweithredu yn ddiweddar i wella'r ffordd y mae'n monitro ei sefyllfa ariannol ac, wrth iddi symud ymlaen â'i chynllun ariannol a chyflymu cyflawni arbedion, bydd angen iddi sefydlu trefniadau priodol i fonitro cynnydd ac effaith

54 Mae trefniadau adrodd clir, rheolaidd a thryloyw yn bwysig er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol o'r sefyllfa ariannol, y camau gweithredu y mae cyrff yn eu cymryd i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol a'r effaith ar eu rhanddeiliaid a'u hamcanion llesiant.

55 Nododd CIPFA broblemau sylweddol gydag argaeledd a dibynadwyedd gwybodaeth monitro ariannol. Roedd uwch arweinwyr y gwnaethom eu cyfweld yn myfyrio ar sut mae prydlondeb ac ansawdd monitro ariannol wedi gwella ers hynny. Dywedon nhw wrthym fod gofyniad erbyn hyn y dylid nodi gwybodaeth monitro ariannol mewn adroddiadau, yn hytrach na diweddariadau llafar fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Rydym yn nodi bod cyfrifon rheolwyr yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol a phob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

56 Hefyd, bydd yn bwysig i'r Llyfrgell ddatblygu trefniadau i fonitro cyflawni arbedion a'u heffaith, wedi'u halinio â'i chyllideb a'i chynllun ariannol. Bydd hyn yn helpu'r Llyfrgell i ddeall y goblygiadau i'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon cyffredinol. Yn fwy eang, bydd angen i'r Llyfrgell ddeall effaith ei chynllun ariannol a'i chyflawniad arbedion ar gyflawni ei hamcanion llesiant.

57 Mae'r Llyfrgell yn bwriadu gwneud nifer o newidiadau strategol, a bydd yn bwysig iddi adolygu ac addasu wrth iddi symud ymlaen. Bydd gwerth mewn dysgu oddi wrth sefydliadau tebyg a rhannu'r hyn a ddysgwyd â nhw. Mae hyn yn debygol o gynnwys y cyrff eraill yn y sector diwylliant sydd wedi bod yn ganolbwynt ein harchwiliad ehangach (gweler **Atodiad 1**). Gallai hefyd gynnwys llyfrgelloedd cenedlaethol eraill.

# Argymhellion

58 Rydym wedi cyflwyno tri argymhelliad y byddwn yn disgwyl i'r Llyfrgell ymateb iddynt.

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion**

**Cynllunio ariannol**

A1 Wrth fwrw ymlaen ac adolygu ei chynllun ariannol, dylai'r Llyfrgell archwilio'r ffactorau sy'n debygol o lunio ei chynaliadwyedd ariannol dros o leiaf y tair blynedd nesaf a hirach, lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys:

- modelu lefelau cyllid allanol, pwysau incwm a chostau, a meincnodi'r rhagdybiaethau gyda chyrff eraill;
- ystyried meysydd y gallai fod angen buddsoddiad newydd neu ychwanegol arnynt, a'r gofyniad (fel y bo'n briodol);
- ystyried risgiau a allai effeithio ar adnoddau;
- ystyried sut y bydd yn parhau i gyflawni ei strategaeth a'i hamcanion llesiant yn y cyd-destun hwn;
- opsiynau ar gyfer arbedion a'r lefel i'w gyflawni i gwrdd ag unrhyw ddiffyg, ynghyd â (neu i gysylltu â) gwybodaeth berthnasol ar amserlenni ar gyfer cyflawni a chynnydd.

Dylai hon fod yn broses barhaus, yn hytrach nag ymarfer untro (gweler **paragraffau 35 i 38**).

**Cynllunio i gyflawni arbedion/cynhyrchu incwm**

A2 Dylai'r Llyfrgell ddatblygu trefniadau sy'n sicrhau, wrth gynllunio arbedion neu gynhyrchu incwm, ei bod yn ystyried y canlynol:

- eu cyfraniad/effaith ar ei hamcanion llesiant;
- cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys barn rhanddeiliaid (gweler **paragraffau 43 i 48**).

**Monitro a goruchwylio**

A3 Dylai'r Llyfrgell roi trefniadau effeithiol ar waith i fonitro:

- cynnydd wrth weithredu'r cynllun ariannol, gan gynnwys cynnydd tuag at arbedion a'u cyflawni;
- effaith y cynllun ariannol a'r arbedion, gan gynnwys canlyniadau ar gyfer cyflawni'r strategaeth a'r amcanion llesiant.

Dylai adrodd yr wybodaeth yn rheolaidd i'r Tîm Gweithredol, y Bwrdd, a'i Phwyllgor Cyllid ac Adnoddau (gweler **paragraff 56**).

# Atodiad 1

## Ynglŷn â'n gwaith

### Cwestiynau, cwmpas a meini prawf archwilio

Aethom ati i archwilio i ba raddau y mae'r Llyfrgell yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ei threfniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Mewn perthynas â chynllunio ariannol, byddem yn disgwyl i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gynnwys ystyried yr angen i gyflawni'r canlynol:

- mynd i'r afael â phwysau ariannol ar unwaith, gan gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd ar yr un pryd.
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, fel bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd dros y tymor canolig a'r tymor hwy;
- cyflawni uchelgeisiau strategol, fel y'u disgrifir trwy amcanion llesiant y sefydliad. Mae hyn yn ymgorffori safbwyntiau rhanddeiliaid a dinasyddion a'r angen i gyflawni unrhyw fuddion ataliol tymor hwy.

Rydym wedi nodi ein cwestiynau a'n meini prawf archwilio generig isod. Mae ein meini prawf archwilio wedi'u llywio gan ein gwybodaeth gronnus, canllawiau CIPFA, ac adolygiadau cysylltiedig Archwilio Cymru mewn sectorau eraill. Fe wnaethom hefyd dynnu ar y 'dangosyddion cadarnhaol' yr ydym wedi'u defnyddio mewn prif archwiliadau datblygu cynaliadwy blaenorol. Yn ogystal, fe wnaethom ymgysylltu â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gynllunio'r archwiliad hwn.

Rydym yn ceisio deall yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Llyfrgell a sut mae'n ymateb. Fodd bynnag, ni wnaethom archwilio pob ffactor sydd wedi effeithio neu a allai effeithio ar ei chynaliadwyedd ariannol. Nid ydym ychwaith yn adolygu manylion y mesurau penodol y mae'n eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hynny na'i phrosesau gosod cyllideb flynyddol.

Mae ein gwaith yn y Llyfrgell  yn rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu Amgueddfa Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r cwestiynau a'r meini prawf yn amrywio o ran eu cymhwysedd i bob un o'r pedwar corff. Fe wnaethom ystyried hyn yn ystod ein gwaith casglu tystiolaeth ac adrodd.

Byddwn yn ystyried adrodd ar wahân ar unrhyw faterion cyffredin a nodwyd trwy ein gwaith ar draws y pedwar corff a gwmpesir gan ein harchwiliad ehangach.

**Arddangosyn 2: cwestiynau a meini prawf archwilio**

| Yng nghyd-destun gostyngiadau refeniw GiA ar gyfer 2024-25, a oes gan y corff drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, yn unol â'i amcanion llesiant? | |
|---|---|
| A oes gan y corff ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol bresennol a'i ragolygon tymor canolig a risgiau tymor hwy? | • Mae'r corff wedi asesu ei ragolygon ariannol ac wedi cyfrifo unrhyw fwlch cyllido dros y tymor byr i'r tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol.<br>• Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid, yr uwch dîm rheoli a'r bwrdd i gyd ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol bresennol y corff a'r rhagolygon tymor canolig, a sut mae hynny'n cymharu â chyrff tebyg.<br>• Mae'r corff wedi nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol, gan dynnu ar sylfaen dystiolaeth eang sy'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau ariannol. Gallai hyn gynnwys cynnydd yn y galw, gofynion newydd, a safbwyntiau dinasyddion. |
| A oes gan y corff ddull strategol clir i helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy a chyflawni ei amcanion llesiant? | • Mae'r corff wedi nodi'n glir ei ddull strategol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, gyda golwg ar y tymor hwy.<br>• Mae dull strategol y corff o ran cynaliadwyedd ariannol wedi'i ddatblygu yng ngoleuni'r weledigaeth ehangach, y strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant.<br>• Mae dull strategol y corff o ran cynaliadwyedd ariannol yn cael ei gefnogi gan uwch reolwyr a bwrdd.<br>• Mae'r corff wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor a chyflawni ei amcanion llesiant, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill.<br>• Mae dull strategol y corff yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn yn strategol i reoli ei heriau ariannol dros y tymor canolig.<br>• Mae'r corff wedi modelu effaith ragweledig ei ddull strategol o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau mewn gwasanaethau posibl, cau adeiladau, cynnydd mewn ffioedd, gostyngiadau mewn grantiau) a'r effaith y mae hyn yn debygol o gael ar yr amcanion llesiant a dinasyddion/rhanddeiliaid. |
| A yw'r corff wedi nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'i | • Mae gan y corff hanes o fynd i'r afael â heriau ariannol yn llwyddiannus. |

| | |
|---|---|
| heriau ariannol dros y tymor byr a'r tymor canolig, yng nghyd-destun cyflawni ei amcanion llesiant? | Mae'r corff wedi nodi'r camau gweithredu, gan gynnwys unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud, i fynd i'r afael â'i heriau ariannol dros y tymor byr a chanolig, wedi'u cefnogi gan gynlluniau â thystiolaeth dda ar sail tybiaethau rhesymol.<br>• Mae gan y corff drefniadau ar waith i ddatblygu camau gweithredu (gan gynnwys cynigion arbedion) i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, sy'n gysylltiedig â'u cyfraniad at gyflawni'r amcanion llesiant.<br>• Mae trefniadau'r corff yn sicrhau y gall ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu hyn (e.e. cynigion arbedion), gan gynnwys barn rhanddeiliaid. |
| A yw'r corff yn monitro ei gynaliadwyedd ariannol, y gwaith o gyflawni arbedion a'r effaith ar yr amcanion llesiant ac yn ceisio dysgu a gwella? | • Mae gan y corff drefniadau priodol ar waith i fonitro ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir.<br>• Mae gan y corff drefniadau i adrodd yn dryloyw ar effaith/effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion llesiant a'i randdeiliaid/dinasyddion i fwrdd, pwyllgorau a rhanddeiliaid eraill.<br>• Mae'r corff yn nodi amserlenni ar gyfer cyflawni arbedion ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd wrth eu cyflwyno i uwch reolwyr, bwrdd a phwyllgorau perthnasol i alluogi goruchwylio a chraffu.<br>• Mae'r corff ar y trywydd iawn gyda chynlluniau i gyflawni arbedion yn 2024-25 a thu hwnt.<br>• Mae'r corff yn ymwybodol o gryfderau/gwendidau yn ei ddull gweithredu ac yn ceisio dysgu a gwella. |

## Dulliau archwilio

Gwnaethom gynnal dadansoddiad lefel uchel o ddatganiadau ariannol y Llyfrgell, sy'n cwmpasu cyfnod o bum mlynedd rhwng 2019-20 a 2023-24 i'n helpu i ddeall ei sefyllfa ariannol a sut mae hynny wedi newid.

Fe wnaethom adolygu dogfennau gan gynnwys strategaeth ac amcanion llesiant y Llyfrgell, gwybodaeth cynllunio ariannol sydd ar gael, adroddiadau monitro perthnasol, a phapurau a chofnodion cyfarfodydd bwrdd a phwyllgor perthnasol. Fe wnaethom hefyd gyfweld â sampl o uwch staff ac aelodau'r bwrdd.

Fe wnaethom ystyried canfyddiadau ac argymhellion adolygiadau allanol perthnasol, yn benodol comisiynodd Llywodraeth Cymru 'Adolygiad Teilwredig' yn 2020 ac adroddiadau y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) i'r Llyfrgell yn 2022 a 2023.

Fe wnaethom gasglu’r rhan fwyaf o’n tystiolaeth rhwng Gorffennaf a Medi 2024 ac adolygu tystiolaeth ychwanegol rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025, gan gynnwys cyfrifon terfynol y Llyfrgell ar gyfer 2023-24.


# Atodiad 2

## Y sefyllfa ariannol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r tablau a'r siartiau isod yn nodi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol y Llyfrgell. Nid yw'r wybodaeth yn gynhwysfawr ond mae'n cynnwys setiau data allweddol sy'n dangos y sefyllfa ariannol newidiol rhwng 2019-20 a 2023-24. Fe wnaethom seilio ein dadansoddiad ar ddatganiadau ariannol y Llyfrgell. Mae **paragraffau 21 i 24** yn darparu gwybodaeth am gyllid ar gyfer 2024-25 a chyllid ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn cynnwys GiA a chydrannau eraill sydd â chyfyngiad amser.

### Incwm

**Arddangosyn 3: Incwm Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ôl ffynhonnell, rhwng 2019-20 a 2023-24**




Nodyn: Mae grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys grant cyfyngedig o £1.1 miliwn sy'n ymwneud â chynllun diswyddo gwirfoddol. Mae'r categori 'grantiau ac incwm eraill' yn cynnwys grantiau nad ydynt yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru, gweithgareddau masnachu (er enghraifft, o gaffi a siop y Llyfrgell), rhoddion a chymynroddion preifat, ac incwm buddsoddiadau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol y Llyfrgell

## Gwariant


**Arddangosyn 4: Costau staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel cyfran o GiA Llywodraeth Cymru, rhwng 2019-20 a 2023-24**

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff (£ miliwn) | 9.6 | 10.8 | 10.6 | 12.3 | 11.2 |
| GiA Llywodraeth Cymru (£ miliwn) | 10.0 | 10.4 | 11.6 | 12.2 | 11.9 |
| Costau staff fel cyfran o GiA Llywodraeth Cymru (%) | 96 | 104 | 91 | 101 | 94 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol y Llyfrgell

Nodyn: Mae costau staff yn natganiadau ariannol 2023-24 yn cynnwys £1.1 miliwn sy'n ymwneud â chynllun diswyddo gwirfoddol. Ariannwyd hwn gan grant cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru, nid GiA. Felly, mae'r costau staff a gynhwysir yn y siart hon ar gyfer 2023-24 yn eithrio'r costau sy'n ymwneud â'r cynllun diswyddo.

**Arddangosyn 5: Gwariant Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ôl math, rhwng 2019-20 a 2023-24**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol y Llyfrgell

Nodiadau:

[1] Mae costau staff ar gyfer 2023-24 yn cynnwys y £1.1 miliwn ar gyfer costau diswyddo gwirfoddol yr ydym wedi'u heithrio o'r dadansoddiad yn **Arddangosyn 4**.

[2] Mae costau uniongyrchol yn gysylltiedig â gweithgareddau'r Llyfrgell a'i chostau rhedeg, megis ynni.

[3] Y costau eraill yw costau cyllid pensiwn, taliadau am ddibrisiant ac amorteiddio sy'n ymwneud ag asedau'r Llyfrgell, ac enillion a/neu golledion o waredu buddsoddiadau'r Llyfrgell. Gwnaeth y Llyfrgell enillion wrth waredu buddsoddiadau ym mhob blwyddyn ac eithrio 2022-23. Er enghraifft, roedd cynnydd o £1.2 miliwn yn 2023-24 yn lleihau costau eraill o'r hyn a oedd fel arall yn cynnwys £0.8 miliwn mewn cyllid pensiwn a £2.4 miliwn ar gyfer dibrisiant asedau ac amorteiddio. Mae'r £3.3 miliwn o gostau eraill ar gyfer 2022-23 yn cynnwys colled o £1.0 miliwn.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English